# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1
# Technoleg Ddigidol

## Manyleb Ddrafft

I'w addysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw Gymhwyster Sylfaen Cyffredinol newydd a gymeradwywyd i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

DRAFFT

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## CYNNWYS


CRYNODEB O'R ASESU ..... 5

1. Rhagarweiniad ..... 7
   - 1.1. Nodau ..... 7
   - 1.2. Cwricwlwm i Gymru ..... 7
   - 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ..... 9
   - 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso ..... 9
   - 1.5. Y defnydd o iaith ..... 9
   - 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 9
2. CYNNWYS Y PWNC ..... 10
   - 2.1. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ..... 10

Uned 1 ..... 11

Uned 2 ..... 19

Uned 3 ..... 25

Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ..... 27

3. ASESU ..... 28
   - 3.1. Amcanion Asesu a Phwysoliadau ..... 28
   - 3.2. Trosolwg o'r Asesiad ..... 29
   - 3.3. Rheoli'r asesiad ..... 30
   - 3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol ..... 31
4. CAMYMDDWYN ..... 33
5. GWYBODAETH DECHNEGOL ..... 34
   - 5.1. Cofrestru ..... 34
   - 5.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ..... 34
   - 5.3. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ..... 34
   - 5.4. Ailsefyll asesiadau ..... 35
   - 5.5. Ailwneud y cymhwyster ..... 36
   - Atodiad A – Sgiliau digidol ar gyfer Uned 2 ..... 37
   - Atodiad B – Sgiliau digidol ar gyfer Uned 3 – Sgiliau digidol ..... 39

Atodiad C: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 41


© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt sy'n cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol.  Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy’n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw’r unig gorff dyfarnu sy’n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o’r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae’n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Lluniwyd ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, a chynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy’n hygyrch ac yn ennyn diddordeb. Gyda’r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn gallu magu hyder, yn datblygu gwybodaeth hanfodol, yn dod i ddeall sgiliau, ac yn mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yw eu strwythur unedol. Dyma sy’n caniatáu i’r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda’r hyblygrwydd hwn, mae’n bosibl gwneud cynnydd yn raddol, mae llai o bwysau asesu, ac mae’r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw’n ei gyflawni drwy gydol y cwrs.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Nid oes angen yr un perfformiad ym mhob maes, ac mae hynny felly'n golygu bod modd cyflawni'n uchel mewn un uned a hynny wedyn yn gwneud iawn am berfformiad is mewn uned arall. Mae'r profiad asesu felly'n un cynhwysol a chefnogol ar y sail hon.

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn adeiladu ar y ddealltwriaeth o gysyniadau a ddatblygodd dysgwyr yn rhan o'u dysgu rhwng 3 ac 14 oed wrth ddilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cysylltu â'r pedwar diben a'r egwyddorion cynnydd, ac yn cefnogi hynny. Er eu bod yn wahanol iawn i'r TGAU, cawsant eu llunio gennym i gynnig sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i'r TGAU cysylltiedig, gan ganolbwyntio ar sgiliau a dealltwriaeth debyg.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Technoleg Ddigidol

# CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Y Byd Digidol**
**Profion Testun Digidol: 3 x 20 munud**
**30% o'r cymhwyster**
**60 marc**

Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy dri phrawf testun digidol:

- Technoleg Ddigidol a Systemau Digidol
- Diogelwch Ar-lein a Chyfrifoldeb Digidol
- Gyrfaoedd Technoleg Ddigidol a'i defnydd yn y Gweithle.

Bydd y tri phrawf yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol ac atebion byr sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r testunau hyn.

Gall canolfannau ddewis fformat digidol neu bapur o fewn cyfnod asesu pedair wythnos.

**Uned 2: Dylunio Datrysiadau Digidol**
**Asesiad di-arholiad: yr amser a awgrymir yw oddeutu 16 awr**
**35% o'r cymhwyster**
**70 marc**

Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.

Bydd yr asesiad yn cynnwys tasgau yn seiliedig ar thema gyd-destunol a gaiff ei dewis gan yr ymgeisydd. Bydd y tasgau'n cael eu seilio ar y canlynol:

- Casglu a dadansoddi data i ddarganfod anghenion y gynulleidfa am gynnyrch digidol rhyngweithiol a ddewiswyd
- Cynllunio a dylunio'r cynnyrch digidol rhyngweithiol
- Creu cynnyrch digidol rhyngweithiol gan ddefnyddio sgiliau digidol
- Dangos sgiliau digidol mewn recordiad sgrin
- Adfyfyrio ar y nodau a'r canlyniadau.

Bydd briff yr aseiniad ar gael ar wefan Porth CBAC.

**Uned 3: Creu a Chyfathrebu â Chyfryngau Digidol**
**Asesiad di-arholiad: yr amser a awgrymir yw oddeutu 14 awr**
**35% o'r cymhwyster**

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **70 marc** |
|---|
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.<br><br>Bydd yr asesiad yn cynnwys tasgau yn seiliedig ar thema gyd-destunol a gaiff ei dewis gan yr ymgeisydd. Bydd y tasgau'n cael eu seilio ar y canlynol:<br><br>• Cynllunio project<br>• Creu bwrdd naws<br>• Creu dyluniadau cychwynnol<br>• Creu ac allforio'r fideo digidol gan ddefnyddio sgiliau digidol<br>• Dangos sgiliau digidol mewn recordiad sgrin<br>• Adfyfyrio ar gynllun y project.<br><br>Bydd briff yr aseiniad ar gael ar wefan Porth CBAC. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Nid yw trefn yr unedau yn awgrymu trefn addysgu benodol.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael o 2028. Bydd Uned 3 ar gael o 2029. Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: Cliciwch yma i roi'r rhif achredu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Technoleg Ddigidol

## 1. RHAGARWEINIAD

### 1.1. Nodau

Rhaid i gymwysterau Sylfaen Technoleg Ddigidol alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- defnyddio technolegau digidol yn hyderus
- datblygu gwybodaeth am ddefnyddiau a nodweddion technolegau digidol
- deall yr effaith y gall technolegau digidol ei chael ar unigolion a chymdeithas ehangach
- datblygu sgiliau caffael, dewis a deall gwybodaeth a data mewn cyd-destun digidol
- dod yn wneuthurwyr allbynnau digidol, mewn amrywiaeth o fformatau ac at amrywiaeth o bwrpasau.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Technoleg Ddigidol hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol a amlinellir yn adran 'Dylunio eich Cwricwlwm' ym maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd yn ogystal â chyfleoedd i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 26; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

Mae'r cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Technoleg Ddigidol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddatblygu chwilfrydedd am dechnoleg
  - prosesu data er mwyn datrys amrywiaeth eang o broblemau bywyd go iawn
  - deall y ffordd y mae prosesau cyfrifiannu wedi newid y ffordd rydym yn byw, gweithio, astudio a rhyngweithio â'n gilydd a'n hamgylchedd
  - bod yn sylfaen i bob system caledwedd a meddalwedd
  - creu a defnyddio technolegau digidol i'w llawn botensial
  - deall sut mae technolegau digidol yn gweithio
  - deall bod canlyniadau eang, yn gyfreithiol, cymdeithasol a moesegol, i'r defnydd o dechnoleg
  - gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ddatblygiad technoleg a'r defnydd ohoni yn y dyfodol.

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd drwy annog dysgwyr i:
  - gymhwyso dull iterus at ddylunio prosesau drwy gynnig a gwella
  - ymchwilio, archwilio, dadansoddi, datrys problemau a dylunio atebion creadigol
  - ystyried cyfyng-gyngor moesegol a moesol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dechnoleg.

- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Technoleg Ddigidol[1] drwy roi cyfle i ddysgwyr:
  - archwilio prosesau dylunio, datblygu a chymhwyso technoleg, meddalwedd a systemau
  - datblygu sgiliau digidol gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnoleg a meddalwedd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sail eang ar gyfer dilyniant i TGAU Technoleg Ddigidol a chymwysterau cysylltiedig eraill. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

Lluniwyd CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Technoleg Ddigidol i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o ganran yr ODA y rhagwelir y bydd ei hangen ar gyfer pob uned.

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion dylunio cynhwysol wedi'u cymhwyso trwy gydol y cymhwyster, gan gynnwys defnyddio iaith glir a diduedd ac enghreifftiau amrywiol. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

# 2. CYNNWYS Y PWNC

## 2.1. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde, dan y teitl 'Gwybodaeth Bellach' yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn golygu nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Uned 1

**Y Byd Digidol**

Profion Testun – 1 awr (3 x 20 munud)
30% o'r cymhwyster
60 marc
Wedi'u gosod gan CBAC a'u marcio gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o sut mae technoleg ddigidol yn gweithio a sut mae'n effeithio ar unigolion, cymdeithas a'r gweithle.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- technoleg ddigidol: beth yw technoleg ddigidol, ble mae'n cael ei defnyddio, a chydrannau systemau digidol
- cadw'n ddiogel a defnyddio technoleg yn gyfrifol
- effaith technoleg ddigidol ar bobl a'r gymdeithas
- technoleg ddigidol yn y gweithle.

Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r profion testun naill ai'n ddigidol neu ar bapur o fewn cyfnod asesu pedair wythnos.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Meysydd cynnwys

<table>
<tr><th colspan="2">1.1 Technoleg Ddigidol a Systemau Digidol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br><br>1.1.1gwasanaethau technoleg ddigidol yn ein bywydau bob dydd<br>1.1.2 cydrannau systemau digidol<br>1.1.3 cyfrifiadura cwmwl</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>1.1.1 gwasanaethau technoleg ddigidol yn ein bywydau bob dydd</td><td>Dylai dysgwyr wybod pwrpas gwasanaethau technoleg ddigidol a ddefnyddir yn ein bywydau bob dydd, ac enghreifftiau o'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwasanaethau gofal iechyd digidol i gefnogi gofal iechyd cleifion, gan gynnwys:
<ul>
<li>cofnodion iechyd electronig</li>
<li>telefeddygaeth</li>
<li>apwyntiadau ar-lein</li>
<li>monitro cleifion yn ddigidol</li>
<li>apiau'r GIG</li>
</ul></li>
<li>gwasanaethau addysg i gefnogi dysgu, gan gynnwys:
<ul>
<li>ystafelloedd dosbarth rhithiol</li>
<li>e-ddysgu</li>
<li>asesiadau digidol</li>
<li>systemau gwybodaeth reoli addysg</li>
<li>adnoddau dysgu ar-lein</li>
<li>adnoddau cyfathrebu</li>
<li>adnoddau cydweithio</li>
</ul></li>
<li>gwasanaethau teithio a thrafnidiaeth i reoli teithiau, gan gynnwys:
<ul>
<li>llywio GPS a chynllunio llwybr</li>
<li>systemau trefnu teithiau a thocynnau</li>
<li>systemau danfon a thracio</li>
<li>apiau trefnu reidiau</li>
<li>teithiau rhithiol</li>
</ul></li>
<li>gwasanaethau cyfryngau ar gyfer adloniant, gan gynnwys:
<ul>
<li>llwyfannau ffrydio</li>
<li>chwarae gemau fideo ar y we</li>
<li>cyfryngau cymdeithasol</li>
</ul></li>
</ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| 1.1.2 cydrannau systemau digidol | Dylai dysgwyr wybod am gydrannau caledwedd cyfrifiadurol a'u pwrpas, gan gynnwys:<br>• mamfwrdd<br>• CPU (Uned Brosesu Ganolog)<br>• GPU (Uned Prosesu Graffeg)<br>• RAM (Cof Hapgyrch)<br>• dyfeisiau mewnbwn ac allbwn safonol ac arbenigol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am y mathau o gyfryngau storio gwahanol , eu nodweddion a'u defnyddiau, gan gynnwys:<br>• storio cwmwl<br>• storio magnetig<br>• storio optegol<br>• storio cyflwr solet (SSD).<br><br>Dylai dysgwyr wybod pwrpas, defnyddiau ac effeithiau meddalwedd, gan gynnwys:<br>• systemau gweithredu<br>• meddalwedd rhaglenni<br>• porwyr gwe<br>• cadarnwedd.<br><br>Dylai dysgwyr wybod sut mae rhwydweithiau'n cael eu defnyddio a beth sydd ei angen i gysylltu dyfeisiau ar rwydwaith:<br>• caledwedd rhwydwaith, gan gynnwys:<br>  ◦ Cerdyn Rhyngwyneb Rhwydwaith (NIC)<br>  ◦ llwybrydd<br>  ◦ switsh<br>• cysylltedd gwifrog, gan gynnwys:<br>  ◦ ethernet<br>  ◦ opteg ffibr<br>• cysylltedd diwifr, gan gynnwys:<br>  ◦ Bluetooth<br>  ◦ Wi-fi. |
| 1.1.3 cyfrifiadura cwmwl | Dylai dysgwyr ddeall defnyddiau'r canlynol a'u nodweddion tebyg a gwahanol:<br>• cyfrifiadura cwmwl<br>• storio cwmwl.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am ddefnyddiau isadeiledd TG modern a ddefnyddir mewn cyfrifiadura cwmwl gan gynnwys:<br>• cefnogaeth isadeiledd<br>• gweinyddion rhithiol<br>• storio a rheoli data<br>• integreiddio â thechnolegau cynyddol amlwg.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall mateision cyfrifiadura cwmwl gan gynnwys:<br>• storio diogel<br>• graddiadwyedd<br>• hyblygrwydd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **1.2 Diogelwch ar-lein a chyfrifoldeb digidol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1 diogelu gwybodaeth bersonol<br>1.2.2 ymddygiad digidol cyfrifol<br>1.2.3 defnyddio technoleg yn ddiogel | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.2.1 diogelu gwybodaeth bersonol | Mae dysgwyr yn deall sut mae rhyngweithio digidol yn arwain at ôl troed digidol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y mathau o olion traed digidol a'u nodweddion, gan gynnwys:<br>• gweithredol<br>• goddefol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br><br>• y camau i ddangos delwedd gadarnhaol ar-lein ac enghraifft o hyn, fel:<br>  ◦ rhannu gweithgareddau cadarnhaol fel gwirfoddoli<br>  ◦ rhannu diddordebau fel digwyddiadau chwaraeon<br>  ◦ defnyddio iaith gadarnhaol fel diolch i rywun am help<br>  ◦ hybu caredigrwydd fel apêl elusennol<br>  ◦ rhannu cynnwys defnyddiol fel awgrymiadau ar gyfer astudio<br>• effaith ôl troed digidol cadarnhaol a negyddol ar ddyfodol person.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y dulliau ar gyfer cadw manylion personol yn breifat a phwysigrwydd hyn, gan gynnwys:<br>• cyfrineiriau<br>• gosodiadau preifatrwydd<br>• Gwybodaeth Bersonol Adnabyddadwy (PII)<br>• Awthentigeiddio Aml-ffactor (MFA)<br>• defnyddio Wi-Fi cyhoeddus yn ddiogel<br>• defnyddio Rhwydwaith Preifat Rhithiol (VPN). |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| 1.2.2 ymddygiad digidol cyfrifol | Dylai dysgwyr ddeall sut i ymddwyn ac ymateb yn gyfrifol ar-lein, gan gynnwys:<br>• cyfathrebu'n ddiogel, fel:<br>  ◦ rhyngweithio mewn ffordd barchus a charedig<br>  ◦ adnabod dieithriaid a negeseuon amheus<br>• defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol, fel:<br>  ◦ gosodiadau preifatrwydd, gweledeedd a lleoliad<br>  ◦ caniatâd apiau a rhannu gwybodaeth bersonol<br>  ◦ ymddygiad addas ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am enghreifftiau o seiberfwlio, fel:<br>• negeseuon neu sylwadau negyddol ailadroddus<br>• codi cywilydd yn gyhoeddus neu aflonyddu<br>• lledaenu sïon yn barhaus.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• effaith seiberfwlio, fel:<br>  ◦ colli hunan-barch a hyder<br>  ◦ encilio cymdeithasol<br>  ◦ symptomau emosiynol neu gorfforol<br>• ffyrdd addas o ddelio â seiberfwlio, fel:<br>  ◦ defnyddio gosodiadau preifatrwydd<br>  ◦ defnyddio dulliau adrodd y llwyfan<br>  ◦ defnyddio adnoddau rhwystro<br>  ◦ gosodiadau i gyfyngu ar gysylltiadau<br>  ◦ ceisio cefnogaeth gan oedolion neu gymunedau ar-lein y gellir ymddiried ynddynt.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• sut i adnabod bygythiadau ar-lein ac ymateb iddynt, fel:<br>  ◦ gwe-rwydo a negeseuon e-bost amheus<br>  ◦ sgamiau<br>  ◦ gwefannau anniogel a ffug<br>• arferion lawrlwytho diogel, fel:<br>  ◦ defnyddio gwefannau dibynadwy<br>  ◦ gwirio cyfeiriad y wefan<br>  ◦ gwirio adolygiadau a sgoriau. |
| 1.2.3 defnyddio technoleg yn ddiogel | Dylai dysgwyr wybod sut i ddefnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel, gan gynnwys:<br>• rheoli amser sgrin, fel:<br>  ◦ cydbwyso bywyd ar-lein ac all-lein<br>  ◦ osgoi cynnwys niweidiol<br>• diogelu iechyd a llesiant meddyliol, fel:<br>  ◦ cynnwys negyddol a niweidiol<br>  ◦ seiberfwlio ac adrodd<br>• diogelwch dyfeisiau, fel:<br>  ◦ diweddariadau, meddalwedd wrthfirysau, a rhwydweithiau diogel<br>  ◦ osgoi Wi-Fi cyhoeddus ar gyfer tasgau sensitif.<br>Dylai dysgwyr ddeall y problemau sy'n gysylltiedig â pheidio â defnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **1.3 Gyrfaoedd Technoleg Ddigidol a'i defnydd yn y Gweithle** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1 gyrfaoedd digidol a chyflogaeth<br>1.3.2 technoleg ac arferion gweithio<br>1.3.3 diogelwch mewn arferion digidol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.3.1 gyrfaoedd digidol a chyflogaeth | Dylai dysgwyr ddeall rolau a phrif gyfrifoldebau swyddi sy'n seiliedig ar dechnoleg ddigidol, gan gynnwys:<br>• Technegydd Cefnogaeth TG<br>• Asiant Cefnogi Cwsmeriaid<br>• Datblygwr Apiau/Gwefannau<br>• Dylunydd Graffeg<br>• Cynorthwyydd Cofnodi Data<br>• Crëwr Cynnwys.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y prif sgiliau a ddefnyddir mewn rolau sy'n seiliedig ar dechnoleg ddigidol, gan gynnwys:<br>• llythrennedd digidol<br>    • rheoli ffeiliau<br>    • llywio'r rhyngrwyd<br>    • meddalwedd swyddfa<br>• codio a rhaglennu sylfaenol<br>    • HTML<br>    • CSS<br>    • JavaScript<br>• trin data<br>• seiberddiogelwch<br>• adnoddau cyfathrebu a chydweithio<br>• hanfodion y cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol<br>• hyblygrwydd a dysgu parhaus<br>• datrys problemau a meddwl yn feirniadol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| 1.3.2 technoleg ac arferion gweithio | Dylai dysgwyr ddeall arferion gweithio cyffredin technoleg ddigidol ac enghreifftiau ohonynt, gan gynnwys:<br>• galwadau fideo, fel:<br>  ◦ paratoi cyn yr alwad<br>  ◦ meddu ar y dogfennau angenrheidiol<br>  ◦ cynnal cwrteisi proffesiynol<br>  ◦ defnyddio'r nodweddion sgwrsio a chodi llaw<br>• storio a rheoli ffeiliau, fel:<br>  ◦ enwi ffeiliau a ffolderi'n gywir<br>  ◦ creu copi wrth gefn o waith yn rheolaidd<br>  ◦ tracio gwaith gyda fersiynau<br>  ◦ defnyddio adnoddau ar-lein i gydweithio<br>• safonau sylfaenol gweithio gartref, fel:<br>  ◦ cael gweithle addas<br>  ◦ cymryd egwylion rheolaidd<br>  ◦ gwisgo'n briodol ar gyfer galwadau fideo<br>  ◦ gofyn am help pan fydd angen<br>• rheoli amser, fel:<br>  ◦ cael amserlen glir<br>  ◦ cael oriau gwaith rheolaidd<br>  ◦ blaenoriaethu tasgau<br>• mewngofnodi a diogelwch, fel:<br>  ◦ defnyddio cyfrineiriau cryf<br>  ◦ galluogi awthentigeiddio aml-ffactor (MFA)<br>  ◦ gwirio bod eich cysylltiadau yn ddiogel<br>  ◦ cloi eich sgrin pan fyddwch yn cael egwyl<br>• cadw mewn cysylltiad, fel:<br>  ◦ cysylltu â'r tîm neu'r rheolwr yn rheolaidd<br>  ◦ defnyddio systemau negeseuon i gadw mewn cysylltiad<br>  ◦ sicrhau bod eich statws yn weladwy ac yn gyfredol<br>  ◦ cymryd rhan mewn cyfarfodydd a chyfrannu syniadau<br>  ◦ rhoi eich camera ymlaen mewn cyfarfodydd. |
| 1.3.3 diogelwch mewn arferion digidol | Dylai dysgwyr wybod am amrywiaeth o risgiau iechyd a diogelwch cydnabyddedig sy'n gysylltiedig â thechnoleg ddigidol, gan gynnwys:<br>• risgiau corfforol, fel:<br>  ◦ osgo wael ac ergonomeg wrth ddefnyddio cyfrifiaduron neu ddyfeisiau<br>  ◦ straen llygaid o ganlyniad i ddefnyddio sgrin am gyfnod hir<br>  ◦ anafiadau straen ailadroddus<br>• risgiau amgylcheddol, fel:<br>  ◦ peryglon trydanol o gyfrifiaduron, gwefrwyr neu geblau<br>  ◦ cyfarpar yn gorboethi<br>• risgiau i iechyd a llesiant, fel:<br>  ◦ blinder o ganlyniad i amser sgrin gormodol<br>  ◦ straen oherwydd llwyth gwaith trwm neu hysbysiadau cyson. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr wybod am amrywiaeth o arferion iechyd a diogelwch cydnabyddedig a ddefnyddir yn y gweithle, gan gynnwys:<br>• man gwaith ergonomig, fel:<br>    • cadair a desg o uchder cywir<br>    • lleoliad y monitor<br>    • golau<br>    • egwylion rheolaidd<br>• diogelwch ffisegol, fel:<br>    • cloi dyfeisiau pan fyddwch i ffwrdd o'ch desg.<br>    • cadw dogfennau cyfrinachol o'r golwg.<br>    • defnyddio sgriniau preifatrwydd os bydd angen.<br>• cyfrineiriau a manylion mewngofnodi diogel, fel:<br>    • creu cyfrinair cryf<br>    • awthentigeiddio aml-ffactor (MFA)<br>    • osgoi rhannu manylion mewngofnodi<br>    • allgofnodi'n ddiogel neu ddefnyddio'r sgrin gloi. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Uned 2

**Dylunio Datrysiadau Digidol**

Asesiad di-arholiad
35% o'r cymhwyster
70 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- cynllunio, dylunio a chreu cynnyrch digidol rhyngweithiol i fodloni anghenion y gynulleidfa, gan ddangos sgiliau digidol ac adfyfyrio ar lwyddiant y canlyniadau.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- casglu a dadansoddi data er mwyn cadarnhau anghenion y gynulleidfa
- cynllunio a dylunio cynnyrch digidol rhyngweithiol
- cymhwyso sgiliau digidol i ddatblygu cynnyrch digidol rhyngweithiol
- dangos canlyniadau ac adfyfyrio arnynt.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">2.1 Ymchwiliad</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.1.1 casglu data am anghenion y gynulleidfa<br>2.1.2 fformatio a pharatoi taenlen<br>2.1.3 dadansoddi data am anghenion y gynulleidfa</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>2.1.1 casglu data am anghenion y gynulleidfa</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o ddulliau casglu data addas, fel:<br>• ffurflenni casglu data<br>• arolygon<br>• arsylwadau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall anghenion cynulleidfa am gynnyrch digidol rhyngweithiol, fel:<br>• testun/thema<br>• arddull dewisol<br>• anghenion hygyrchedd<br>• anghenion defnyddioldeb.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut i nodi data perthnasol am anghenion cynulleidfa sy'n addas i'w dadansoddi.</td></tr>
<tr><td>2.1.2 fformatio a pharatoi taenlen</td><td>Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau taenlen (o Atodiad A) i wneud y canlynol:<br>• creu taenlen wedi'i fformatio'n addas<br>• paratoi taenlen yn barod i fewnbynnu a dadansoddi data, gan ddefnyddio:<br>    • mathau cywir o ddata<br>    • dilysiadau</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | • mewnbynnu data yn barod i'w dadansoddi. |
| 2.1.3 dadansoddi data am anghenion y gynulleidfa | Dylai dysgwyr ddeall sut i ddefnyddio sgiliau addas (Atodiad A) i wneud y canlynol:<br><br>• dadansoddi data i ddod o hyd i batrymau a chanlyniadau, fel:<br>  • trefnu<br>  • hidlo<br>  • chwilio<br>  • fformatio amodol.<br><br>• creu siartiau addas i ddangos anghenion y gynulleidfa gan ddefnyddio siartiau fel:<br>  • llinell<br>  • cylch<br>  • bar<br>  • pictogram.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut i nodi'r canfyddiadau allweddol o waith dadansoddi data am anghenion y gynulleidfa i lywio datblygiad y cynnyrch digidol rhyngweithiol. |

| **2.2 Cynllunio a dylunio cynhyrchion digidol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 cynllunio ar gyfer llwyddiant<br>2.2.2 dylunio cynhyrchion digidol rhyngweithiol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.2.1 cynllunio ar gyfer llwyddiant | Dylai dysgwyr allu datblygu nodau project realistig ar gyfer eu cynnyrch digidol rhyngweithiol:<br>• sy'n adlewyrchu anghenion y gynulleidfa<br>• y gellir eu defnyddio i brofi swyddogaethedd y cynnyrch digidol rhyngweithiol. |
| 2.2.2 dylunio cynhyrchion digidol rhyngweithiol | Dylai dysgwyr allu dylunio:<br>• agweddau gweledol ar y cynnyrch digidol rhyngweithiol, fel:<br>  • cynllun lliw<br>  • cynllun<br>  • teipograffeg<br>• agweddau sain ar y cynnyrch digidol rhyngweithiol, fel:<br>  • cerddoriaeth gefndir<br>  • effeithiau sain<br>  • trosleisiau neu adrodd stori<br>• agweddau technegol ar y cynnyrch digidol rhyngweithiol, fel:<br>  • gofynion meddalwedd<br>  • gofynion caledwedd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu cyfleu anghenion y gynulleidfa drwy eu dyluniadau. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **2.3 Gweithredu** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.3.1 Rhoi Cynnyrch Digidol Rhyngweithiol ar Waith:<br>2.3.1 (a) Gêm cyfrifiadur<br>2.3.1 (b) Cwis rhyngweithiol<br>2.3.1 (c) Llyfr stori rhyngweithiol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.3.1 (a) Gêm cyfrifiadur | Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau addas i ddatblygu cynnyrch digidol rhyngweithiol a allai fod ar ffurf:<br><br>Gêm cyfrifiadur, gan gynnwys:<br>• ymddygiad rheoli gêm cyfrifiadur, fel:<br>  ◦ symudiad chwaraewyr<br>  ◦ rhesymeg gêm<br>  ◦ systemau sgorio<br>  ◦ bywydau neu systemau difrod<br>• defnyddio elfennau gweledol, cymeriadau/corluniau gêm, gwrthrychau y gellir eu casglu ac amgylcheddau<br>• ychwanegu effeithiau sain a cherddoriaeth gefndir i gyfoethogi'r profiad chwarae gemau fideo<br>• creu elfennau rhyngwyneb sythweledol, rhyngweithiol a deniadol, megis:<br>  ◦ sgriniau dewislen<br>  ◦ sgriniau ennill<br>  ◦ sgriniau colli.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau datblygu gêm cyfrifiadur addas o bob lefel cymhlethdod (sydd wedi'u categoreiddio fel sgiliau sylfaenol, sgiliau uwch a sgiliau cymhleth, fel y rhestrir yn Atodiad A). |
| 2.3.1 (b) Cwis rhyngweithiol | Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau digidol i ddatblygu cynnyrch digidol rhyngweithiol a allai fod ar ffurf:<br><br>Cwis rhyngweithiol, gan gynnwys:<br>• ymddygiad rheoli cwis, fel:<br>  ◦ cwestiynau cywir/anghywir<br>  ◦ cwestiynau aml-ddewis<br>  ◦ cwestiynau adnabod delweddau<br>  ◦ rhesymeg cwis<br>  ◦ systemau sgorio<br>• defnyddio elfennau gweledol cwis, delweddau, delweddau symudol, cefndiroedd<br>• ychwanegu effeithiau sain a cherddoriaeth gefndir i gyfoethogi profiad y cwis<br>• creu elfennau rhyngwyneb sythweledol, rhyngweithiol a deniadol, megis:<br>  ◦ sgriniau dewislen<br>  ◦ sgriniau ennill<br>  ◦ sgriniau colli.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau datblygu cwis rhyngweithiol addas o bob lefel cymhlethdod (sydd wedi'u |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | categoreiddio fel rhai sgiliau sylfaenol, sgiliau uwch a sgiliau cymhleth, fel y rhestrir yn Atodiad A). |
| 2.3.1 (c) Llyfr stori rhyngweithiol | Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau digidol i ddatblygu cynnyrch digidol rhyngweithiol a allai fod ar ffurf:<br><br>Llyfr stori rhyngweithiol, gan gynnwys:<br>• ymddygiad rheoli stori, fel:<br>    • canghennu'r stori<br>    • sbarduno effeithiau sain<br>    • cysylltu'n ôl â thudalennau blaenorol<br>    • rheoli deialog<br>• defnyddio gwaith celf, delweddau, cefndiroedd<br>• ychwanegu effeithiau sain a cherddoriaeth gefndir i gyfoethogi profiad y stori<br>• creu elfennau rhyngwyneb sythweledol, rhyngweithiol a deniadol, megis:<br>    • sgriniau dewislen<br>    • sgriniau opsiynau<br>    • sgriniau gorffen.<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio sgiliau datblygu stori ryngweithiol addas o bob lefel cymhlethdod (sydd wedi'u categoreiddio fel sgiliau sylfaenol, sgiliau uwch a sgiliau cymhleth, fel y rhestrir yn Atodiad A). |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **2.4 Dangos canlyniadau ac adfyfyrio arnynt** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>2.4.1 dangos canlyniadau<br>2.4.2 adfyfyrio ar lwyddiant y cynnyrch digidol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.4.1 dangos canlyniadau | Dylai dysgwyr allu dangos ymddangosiad a swyddogaethedd y cynnyrch digidol, gan gynnwys:<br>• ymddygiad rheoli<br>• y defnydd o waith celf<br>• y defnydd o dechnegau datblygu<br>• sain<br>• datblygu o un cam i un arall. |
| 2.4.2 adfyfyrio ar nodau'r project | Dylai dysgwyr adfyfyrio ar nodau'r project ar gyfer y cynnyrch digidol rhyngweithiol, gan gynnwys:<br>• a gaiff anghenion y gynulleidfa eu bodloni<br>• a gaiff yr holl brofion eu cyflawni<br>• beth y gellid ei wneud i wella'r cynnyrch digidol rhyngweithiol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Uned 3

**Creu a Chyfathrebu â Chyfryngau Digidol**

Asesiad di-arholiad
35% o'r cymhwyster
70 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- galluogi dysgwyr i gynllunio, dylunio a chreu fideo digidol ar gyfer cynulleidfa a phwrpas, gan ddatblygu sgiliau creadigol a chyfathrebu.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cynnig, cynllunio a dylunio fideo digidol
- creu ac allforio fideo digidol
- dangos a gwerthuso llwyddiant y fideo digidol.

**Meysydd cynnwys**

| **3.1 Cynllunio a dylunio fideo digidol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1 cynllunio project<br>3.1.2 creu bwrdd naws<br>3.1.3 dylunio fideo digidol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.1.1 cynllunio project | Dylai dysgwyr ddeall sut i gynllunio project ar gyfer fideo digidol ar thema o'u dewis, gan gynnwys:<br>• thema a phwrpas a ddewiswyd<br>• nodweddion ac anghenion y gynulleidfa<br>• meini prawf llwyddiant y project<br>• amser ac adnoddau, gan gynnwys:<br>  • tasgau a gweithgareddau<br>  • terfynau amser a chynlluniau wrth gefn<br>  • adnoddau. |
| 3.1.2 creu bwrdd naws | Dylai dysgwyr ddeall sut i gynllunio arddull eu project mewn bwrdd naws digidol, er mwyn adlewyrchu meini prawf llwyddiant y project ac anghenion y gynulleidfa, gan gynnwys:<br>• cynlluniau lliw<br>• cynllun<br>• ffontiau<br>• arddull<br>• asedau digidol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| 3.1.3 dylunio fideo digidol | Dylai dysgwyr ddeall sut i greu dyluniad cychwynnol ar gyfer fideo digidol sy'n adlewyrchu'r meini prawf llwyddiant ac anghenion y gynulleidfa gan ddefnyddio dulliau dylunio safonol, fel:<br>• fframiau gwifren<br>• brasfodelau<br>• byrddau stori.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut i anodi dyluniadau cychwynnol i ddangos yr elfennau gweledol, sain a thechnegol y maent yn bwriadu eu defnyddio. |

**3.2 Gweithredu fideo digidol**

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.2.1 creu ac allforio fideo digidol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.2.1 creu ac allforio fideo digidol | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• paratoi asedau digidol gan ddefnyddio sgiliau digidol addas (o Atodiad B) i wella'r ymddangosiad gweledol<br>• creu fideo digidol sy'n bodloni anghenion y gynulleidfa, yn adlewyrchu'r meini prawf llwyddiant, a'r gwaith cynllunio a dylunio<br>• dangos sgiliau digidol (o Atodiad B) i wella mwynhad y gynulleidfa gan gynnwys:<br>  ◦ sgiliau golygu testun<br>  ◦ sgiliau golygu ffotograffau<br>  ◦ sgiliau golygu graffeg<br>  ◦ sgiliau golygu fideo.<br><br>Dylai dysgwyr allu allforio asedau digidol perthnasol a fideo digidol wedi'i gwblhau mewn fformat addas. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

<table>
<tr><th colspan="2">3.3 Dangos sgiliau a llwyddiant ac adfyfyrio arnynt</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br><br>3.3.1 dangos sgiliau digidol<br>3.3.2 adfyfyrio ar lwyddiant fideos digidol</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>3.3.1 dangos sgiliau digidol</td><td>Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau digidol (o Atodiad A) ar gyfer y fideo digidol, gan gynnwys:<br>• sgiliau golygu testun<br>• sgiliau golygu ffotograffau<br>• sgiliau golygu graffeg<br>• sgiliau golygu fideo.</td></tr>
<tr><td>3.3.2 adfyfyrio ar gynllun y project</td><td>Dylai dysgwyr allu adfyfyrio ar ba mor dda y cafodd cynllun y project ar gyfer y fideo digidol ei gyflawni, gan gynnwys:<br>• i ba raddau y cyflawnwyd y pwrpas<br>• i ba raddau y diwallwyd anghenion y gynulleidfa<br>• i ba raddau y bodlonwyd y meini prawf llwyddiant<br>• i ba raddau y gwnaethoch ddilyn eich cynllun amser<br>• i ba raddau y gwnaeth eich adnoddau eich helpu i gwblhau eich fideo.</td></tr>
</table>

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Technoleg Ddigidol yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- ymgysylltu â sefydliadau ac asiantaethau lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch, ymgyrchoedd diogelwch digidol neu asiantaethau diogelu, er mwyn datblygu dealltwriaeth o risgiau digidol, diogelu data a defnydd moesegol o dechnoleg

- ymgysylltu â gwaith crewyr cyfryngau digidol i ddatblygu gwerthfawrogiad o sut mae cynnwys digidol yn cael ei gynllunio, ei ddylunio a'i gynhyrchu, ac o'r amrywiaeth o yrfaoedd sy'n defnyddio technolegau cyfryngau digidol

- archwilio cynhyrchion cyfryngau digidol a systemau digidol o'r byd go iawn i ddeall sut mae anghenion y gynulleidfa, meini prawf llwyddiant a phenderfyniadau dylunio yn dylanwadu ar ganlyniadau digidol

- datblygu ymwybyddiaeth o yrfaoedd a llwybrau sy'n gysylltiedig â thechnoleg ddigidol a chyfryngau digidol, gan gynnwys diwydiannau creadigol, cynhyrchu cynnwys digidol, datblygu meddalwedd a thechnolegau digidol cynyddol amlwg.

Mae ymhelaethu pellach ar y cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w gweld yn Atodiad C. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 3. ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1. Amcanion Asesu a Phwysoliadau

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr wneud y canlynol:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyfeisiau a systemau digidol.

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o adnoddau a systemau digidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

**AA3**
Defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i gynllunio cynnwys digidol ar gyfer anghenion a nodwyd.

**AA4**
Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion a nodwyd.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 30% | 20% | - | - | 50% |
| Uned 2 | - | - | 10% | 15% | 25% |
| Uned 3 | - | - | 10% | 15% | 25% |
| Pwysoliad cyffredinol | **30%** | **20%** | **20%** | **30%** | **100%** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 3.2. Trosolwg o'r Asesiad

**Uned 1: Y Byd Digidol**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gymryd tri phrawf testun o fewn yr un cyfnod asesu.

- Technoleg Ddigidol a Systemau Digidol
- Diogelwch Ar-lein a Chyfrifoldeb Digidol
- Gyrfaoedd Technoleg Ddigidol a'i defnydd yn y Gweithle

Bydd y profion testun yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gan gynnwys cwestiynau dewis lluosog, cwestiynau prawf gwrthrychol a chwestiynau ateb byr a byddant ar gael mewn fformat digidol ac ar bapur.

Bydd y profion testun ar gael i'w cwblhau o fewn cyfnod o bedair wythnos gyda'r asesiad cyntaf yn haf 2028.

Mae'r profion testun yn cyfrannu at 30% o radd gyffredinol y cymhwyster. Mae pob prawf testun yn cymryd 20 munud i'w gwblhau. Nid oes rhaid i ymgeiswyr gwblhau pob prawf yn yr un sesiwn, ond rhaid iddynt gwblhau pob prawf unigol o fewn sesiwn. Defnyddir amodau arholiad dan oruchwyliaeth i sefyll y prawf. Gellid gwneud hyn yn yr ystafell ddosbarth. Gweler 'Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau y CGC' www.jcq.org.uk am fanylion.

CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r prawf.

**Uned 2: Dylunio Datrysiadau Digidol**

Bydd dysgwyr yn creu cynnyrch digidol rhyngweithiol sy'n bodloni anghenion cynulleidfa benodol.

Gall dysgwyr ddewis datblygu naill ai gêm cyfrifiadur, cwis rhyngweithiol, neu lyfr stori rhyngweithiol. Yn ystod amser ymchwil pwrpasol, bydd dysgwyr yn casglu ac yn dewis asedau digidol i'w defnyddio yn eu cynnyrch.

Rhaid i ddysgwyr gasglu gwybodaeth am eu cynulleidfa darged er mwyn llywio penderfyniadau am y thema, yr arddull a'r cynnwys. Yna byddant yn cynllunio ac yn dylunio eu cynnyrch digidol rhyngweithiol dewisol. Bydd dysgwyr yn defnyddio sgiliau digidol o Atodiad A i wella swyddogaethedd a chyflwyniad eu cynnyrch. Yn olaf, bydd dysgwyr yn dangos y sgiliau digidol a ddefnyddiwyd ac yn adfyfyrio ar ba mor effeithiol y mae eu cynnyrch yn cyflawni eu nodau ac yn bodloni anghenion eu cynulleidfa.

Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae gan athrawon yr hawl i wrthod themâu anaddas ar gyfer y cynnyrch digidol rhyngweithiol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 35% at y cymhwyster cyffredinol a hyd yr asesiad a argymhellir yw 16 awr. Dylai hyn gynnwys yr holl agweddau ar y broses ddylunio. Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 70 marc.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

**Uned 3 Creu a Chyfathrebu â Chyfryngau Digidol**

Bydd dysgwyr yn creu fideo digidol ar thema o'u dewis sy'n bodloni anghenion cynulleidfa benodol.

Yn ystod amser ymchwil pwrpasol, bydd dysgwyr yn casglu ac yn dewis asedau digidol i'w defnyddio yn eu cynnyrch er mwyn ei gyfoethogi.

Rhaid i ddysgwyr gynllunio, dylunio a chreu'r fideo digidol gan ddefnyddio sgiliau digidol mewn golygu testun, golygu ffotograffau, golygu graffeg a golygu fideo, a nodir yn Atodiad B. Bydd dysgwyr yn dangos eu sgiliau digidol yn eu fideo digidol mewn recordiad sgrin. Bydd dysgwyr yn adfyfyrio ar gynlluniau.

Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae gan athrawon yr hawl i wrthod themâu anaddas ar gyfer y fideo digidol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 35% at y cymhwyster cyffredinol a hyd yr asesiad a awgrymir yw 14 awr. Dylai hyn gynnwys yr holl agweddau ar y broses ddylunio. Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 70 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

## 3.3. Rheoli'r asesiad

Caiff holl unedau'r cymhwyster hwn eu hasesu drwy asesiad di-arholiad. Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at y cyfarwyddiadau sy'n rhan o ddogfen y *CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol).* Noder nad yw canllawiau'r CGC ar gyfer Manylebau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

**Gosod y Dasg**

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

**Gwneud Tasgau**

Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan reolaethau mewn pum maes: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, dilysu a chydweithio.

- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael neu bydd yn nodi nad oes cyfyngiad amser; rhoddir amser a awgrymir ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol.
- Adnoddau: Bydd unrhyw ofynion adnoddau penodol yn cael eu hamlinellu yn y pecyn asesu.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

- Goruchwylio a dilysu: Fel arfer, dylai dysgwyr gael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.
- Cydweithio: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hyn wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i daflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro a'r dysgwr.

**Marcio Tasgau ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i asesu'n fewnol (Unedau 2 a 3)**

Rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth berfformiad (e.e. cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:
- bod dysgwyr ac athrawon yn llofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd
- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol

Yn Unedau 2 a 3 lle mae'r ganolfan yn asesu'r asesiad di-arholiad, gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:
- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Ni ddylai athrawon:
- ganiatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; Gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu trywydd archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

**Noder** – Ar gyfer Uned 1, sy'n cael ei hasesu gan CBAC, **ni ddylai** athrawon ganiatáu cyfle ychwanegol i ddysgwyr wella eu tystiolaeth cyn cyflwyno'r gwaith i CBAC i'w farcio. **Rhaid i athrawon ddilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn asesu.**

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 4. CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, bydd yr athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen Technoleg Ddigidol.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 5. GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1. Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ar gael yn haf 2028 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Unedau 2 a 3 ar gael yn haf 2029 (a phob blwyddyn wedi hynny – i'w gadarnhau).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod:

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | Profion Testun | | |
| **Uned 2** | Asesiadau di-arholiad | | |
| **Uned 3** | Asesiadau di-arholiad | | |

## 5.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| **Cod cyfnewid** | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.3. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Technoleg Ddigidol yn cael ei adrodd ar raddfa pedwar pwynt: Llwyddiant Mynediad 1, Llwyddiant Mynediad 2, Llwyddiant Mynediad 3 a Llwyddiant Lefel 1 (a Llwyddiant Lefel 1 yw'r radd uchaf). Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw’n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | UCHAFSWM | Pwysoliad | GMU | Lefel 1 | Mynediad 3 | Mynediad 2 | Mynediad 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 60 | 30% | 90 | 72 | 54 | 36 | 18 |
| **Uned 2** | 70 | 35% | 105 | 84 | 63 | 42 | 21 |
| **Uned 3** | 70 | 35% | 105 | 84 | 63 | 42 | 21 |

Bydd GMU sy'n cyfateb i'r marc a enillir yn yr asesiad hwn yn cyfrannu tuag at y cymhwyster.

| | UCHAFSWM | Pwysoliad | GMU | Lefel 1 | Mynediad 3 | Mynediad 2 | Mynediad 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyfarniad Pwnc** | - | - | 300 | 240 | 180 | 120 | 60 |

## 5.4. Ailsefyll asesiadau

Gall ymgeiswyr ailsefyll Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll Unedau 2 a 3, yr asesiadau wedi'u marcio gan y ganolfan, unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni chânt wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 5.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, am y pedwerydd tro neu am Unedau 2 neu 3, asesiad wedi'i farcio gan y ganolfan, am y trydydd tro, yna mae'n rhaid ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, a hyd at ddau gynnig ar Uned 2 ac Uned 3, yr asesiadau di-arholiad wedi'u marcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

## Atodiad A – Sgiliau digidol ar gyfer Uned 2

Lefelau cymhlethdod:

*** Cymhleth (Lefel 1)

** Uwch (Mynediad 2/Mynediad 3)

* Sylfaenol (Mynediad 1/Mynediad 2)

| Sgiliau Taenlen (cyfeirnod manyleb: 2.1.2) | Sgiliau gêm cyfrifiadur (cyfeirnod manyleb 2.3.1 a) | Sgiliau cwis rhyngweithiol (cyfeirnod manyleb 2.3.1 b) | Sgiliau llyfr stori rhyngweithiol (cyfeirnod manyleb 2.3.1 c) |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau fformatio i sicrhau bod taenlenni'n edrych yn broffesiynol**<br>• Fformatio syml (Trwm, Lliw, Borderi) *<br>• Fformatio uwch (Cyfuno celloedd, alinio testun, amlapio testun) **<br><br>**Mathau o ddata a sgiliau dilysu i sicrhau bod y data a fewnbynnwyd yn gywir**<br>• Dilysiadau syml addas (mathau o ddata: testun, rhif) *<br>• Dilysiad uwch addas (mathau o ddata: arian | • Rheoli symudiad (e.e. bysellau Saeth) *<br>• Ychwanegu cefndir *<br>• Mewnforio corlun/cymeriad *<br>• Dolen syml (e.e. Ailadrodd am byth) *<br>• Canfod gwrthdrawiad (e.e. Os yw'n cyffwrdd â lliw...) **<br>• Ychwanegu effeithiau sain (e.e. ar wrthdrawiad neu wrth sgorio) **<br>• Awtomeiddio symudiad y gelyn (e.e. Sboncio ar yr ymyl) **<br>• Gwrthrychau y gellir eu casglu (Cuddio/Dangos) **<br>• Dewislen a sgriniau Ennill/Colli ** | • Llywio llinol (botymau Cwestiwn Nesaf) *<br>• Mewnosod cwestiynau testun *<br>• Mewnosod ysgogiadau ar ffurf delwedd *<br>• Trawsnewidiadau sylfaenol rhwng sleidiau/sgriniau *<br>• Atebion â hypergysylltiadau (botymau Cywir/Anghywir) **<br>• Effeithiau sain wrth glicio (Adborth sain) **<br>• Llywio "Rhowch gynnig arall arni" syml **<br>• Cynllun cyson (Meistr-sleid/cefndir) ** | • Llywio llinol (botymau Nesaf/Yn ôl) *<br>• Mewnosod delweddau cymeriad statig *<br>• Ychwanegu cerddoriaeth gefndir *<br>• Adrodd testun syml *<br>• Sbarduno effeithiau sain wrth glicio **<br>• Animeiddio syml (symudiad wrth lwytho tudalen) **<br>• Rheoli deialog (Swigod siarad) **<br>• Gweithredu sgrin dewislen **<br>• Canghennu Stori (mae Dewis A yn arwain at Dudalen X; mae Dewis B yn arwain at Dudalen Y) *** |

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| cyfred, data, rhif cyfan, addasedig) **<br>• Dilysiad uwch addas (Cwymplen **)<br>• Dilysiad uwch addas (Blwch ticio **)<br><br>**Sgiliau taenlen ar gyfer dadansoddi**<br>• Creu Pictogram *<br>• Siart sylfaenol, dim labeli *<br>• Defnyddio awtohidlydd *<br>• Trefnu data (A-Z, Z-A) *<br>• Hidlo un categori *<br>• Chwilio am ddata penodol **<br>• Creu Siart Bar gyda labeli addas **<br>• Creu Siart Cylch neu Siart Llinell gyda labeli addas ***<br>• Cymhwyso hidlyddion at feysydd lluosog *** | • Newidynnau sgorio (Pwyntiau) ***<br>• Bywydau/Newidynnau iechyd (System difrod) ***<br>• Darlledu negeseuon rhwng corluniau ***<br>• Silio ar hap (Safle X/Y ar hap) *** | • System sgorio (Newidyn: Sgôr = Sgôr + 1) ***<br>• Dilysu mewnbwn (teipio ateb testun) ***<br>• Negeseuon adborth ar hap ***<br>• Swyddogaeth ailosod (Ailddechrau cwis) *** | • Strwythurau dolennu (Dychwelyd i'r dechrau) ***<br>• Digwyddiadau wedi'u hamseru (Arhoswch x eiliad yna dangoswch...) *** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| Atodiad B – Sgiliau digidol ar gyfer Uned 3 – Sgiliau digidol | | | |
|---|---|---|---|
| Lefelau cymhlethdod:<br>*** Cymhleth (Lefel 1)<br>** Uwch (Mynediad 2/Mynediad 3)<br>* Sylfaenol (Mynediad 1/Mynediad 2) | | | |
| Sgiliau golygu testun | Sgiliau golygu ffotograffau | Sgiliau golygu graffeg | Sgiliau golygu fideo (Delweddau Symudol) |
| • Lliw y Ffont: Dewis lliw sy'n cyferbynnu â'r cefndir *<br>• Maint y Ffont: Gwneud testun yn ddarllenadwy/yn addas i'r dyluniad *<br>• Arddull y Ffont: Dewis ffontiau sylfaenol (serif, sans-serif) *<br>• Aliniad: Alinio i'r chwith, y canol neu'r dde *<br>• Safle: Rhoi testun ar y brig, y gwaelod, neu yn y canol *<br>• Hyd: Gosod am faint o amser y mae testun yn aros ar sgrin **<br>• Cefndir: Ychwanegu bloc lliw y tu ôl i destun ** | • Disgleirdeb: Cynyddu/lleihau lefel y golau *<br>• Cyferbynnedd: Addasu'r gwahaniaeth rhwng golau/tywyll *<br>• Troi: Adlewyrchu'n llorweddol/fertigol *<br>• Cylchdroi: Troi 90 gradd i'r chwith/dde *<br>• Tocio: Trimio'r ymylon i ganolbwyntio ar y testun *<br>• Hidlyddion: Cymhwyso arddulliau rhagosodedig (e.e. Sepia, Du a Gwyn) **<br>• Dirlawnder: Gwneud i liwiau ymddangos yn fwy dwys **<br>• Testun: Ychwanegu capsiynau dros luniau ** | • Siapiau: Lluniadu siapiau sylfaenol (petryalau, cylchoedd) *<br>• Llinellau: Lluniadu llinellau (syth/llawrydd) *<br>• Llenwi: Ychwanegu lliwiau solet at siapiau *<br>• Strôc: Newid lliw amlinelliad siâp *<br>• Testun: Ychwanegu labeli syml at graffeg *<br>• Graddiannau: Defnyddio llenwadau â dau liw **<br>• Haenau: Trefnu gwrthrychau (Symud i'r tu blaen/cefn) **<br>• Didreiddedd: Gwneud siapiau yn lled-dryloyw **<br>• Effeithiau: Cysgodion neu dywynnau syml ** | • Trimio: Torri dechrau/diwedd clip *<br>• Dilyniannu: Rhoi clipiau mewn trefn *<br>• Cylchdroi: Gosod cyfeiriadedd y fideo *<br>• Lefel sain: Tewi neu Ddad-dewi sain *<br>• Chwarae'n ôl: Chwarae/Oedi er mwyn adolygu *<br>• Trawsnewidiadau: Pylu, disodli, toddi rhwng clipiau **<br>• Sain: Ychwanegu trac cerddoriaeth gefndir **<br>• Cyflymder: Arafu/cyflymu syml ** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Animeiddio: Mynediad sylfaenol (Croesbylu i Mewn, Llithro) **<br>• Cysgod: Defnyddio cysgod gollwng syml **<br>• Amlinelliad:  Ychwanegu border at nodau testun **<br>• Effeithiau: Tywynnu, Blyrio neu ymddangos ar ffurf 3D ***<br>• Trawsnewidiadau: Effeithiau gadael/mynediad testun llyfn ***<br>• Bylchiad: Addasu uchder y llinell (arweiniol) ***<br>• Haenu: Gosod testun y tu ôl i/o flaen gwrthrychau ***<br>• Didreiddedd: Gwneud testun yn lled-dryloyw *** | • Borderi: Ychwanegu fframiau addurniadol **<br>• Vignette: Tywyllu ymylon llun **<br>• Clonio: Dileu namau/smotiau syml ***<br>• Haenau: Cyfuno dwy ddelwedd (Cyfosod) ***<br>• Tryloywder: Tynnu cefndiroedd syml ***<br>• Haenau Addasu: Newidiadau lliw anninistriol ***<br>• Allforio: Cadw fel PNG (tryloyw) o gymharu â JPG *** | • Patrymau: Llenwi siapiau â gweadau **<br>• Grwpio: Grwpio siapiau lluosog i'w symud fel un ***<br>• Offer Alinio: Defnyddio grid/canllawiau i alinio'n union ***<br>• Pwyntiau Fector: Golygu pwyntiau siâp ***<br>• Allforio: Cadw fel SVG neu PNG cydraniad uchel ***<br>• Masgio: Cuddio rhannau o siâp *** | • Troshaenau Testun: Ychwanegu teitlau ar ben fideo **<br>• Troslais: Recordio adroddiad syml **<br>• Hollti/Torri: Dileu rhannau canol clipiau ***<br>• Cymysgu Sain: Gostwng lefel y gerddoriaeth ar gyfer troslais ***<br>• Llun-mewn-llun: Troshaenu fideo/delwedd ar fideo ***<br>• Sgrin werdd: Dileu allwedd croma syml ***<br>• Fframio allweddol: Symudiad syml (effaith Ken Burns) *** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Atodiad C: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** |
|---|---|---|---|
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.2., 1.3 | 2.3 | 3.1, 3.2 |
| Agweddau cynaliadwyedd ar Gyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.3 | 2.3 | |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 1.2, 1.3 | 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1 |
| Addysg Hawliau Dynol | 1.2, 1.3 | 2.1, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2 |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Darllen | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Siarad | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Ysgrifennu | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** |
|---|---|---|---|
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1, 3.3 |
| Mae deall y system rif yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1, 3.3 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | 2.2 | 3.2, 3.3 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | | 2.1, 2.3 | 3.3 |
| Dinasyddiaeth | 1.2, 1.3 | 2.1, 2.3 | 3.1, 3.2 |
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1. 3.2, 3.3 |
| Cynhyrchu | 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ✓ | 2.3 | 3.1, 3.2, 3.3 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesedd | | 2.2 | 3.1 |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Cynllunio a Threfnu | 1.2, 1.3 | 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Effeithiolrwydd Personol | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.2, 2.3, 2.4 | 3.1, 3.2, 3.3 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026